# Gweithio mewn ardaloedd arfordirol

Cyn cynnal digwyddiad codi sbwriel ar draeth neu ardal arfordirol arall, mae'n werth canfod ychydig mwy am eich safle dewisol cyn cynnal y gweithgaredd. Isod ceir rhai ardaloedd cyffredin y mae angen eu hystyried cyn i chi ddechrau, ac mae gan lawer o draethau fapiau yn nodi llawer o'r wybodaeth;

**Llanw / torbwyntiau –** dylech fod yn ymwybodol o amser y penllanw nesaf a chynllunio eich digwyddiad yn unol â hynny. Os yn bosibl, mae'n well dechrau eich digwyddiad pan fydd y llanw ar drai, un neu ddwy awr ar ôl penllanw. Os nad yw hyn yn bosibl, dylech fod yn ymwybodol o unrhyw ardaloedd o'r traeth/ardal arfordirol a allai gael ei dorri i ffwrdd wrth i'r llanw ddod i mewn, a sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn ymwybodol o hyn. Ni ddylai'r cyfranogwyr fynd i mewn i'r dŵr yn ystod y gweithgaredd.

**Creigiau'n syrthio -** ni ddylai gweithgaredd glanhau ddigwydd o dan unrhyw glogwyni, yn arbennig mewn ardaloedd sydd ag arwyddion yn nodi'r posibilrwydd o greigiau'n syrthio. Argymhellir eich bod yn aros mewn ardaloedd agored ac yn gweithio ar hyd y draethlin lle bydd y rhan fwyaf o'r sbwriel i'w ganfod.

**Clogwyni –** os ydych yn gweithio ar lwybr yr arfordir, dylid bod yn ofalus ar ymyl clogwyni, a dylid cyfyngu'r gweithgaredd i'r llwybr troed. Ar y clogwyni agored, mae angen bod yn ofalus os ydych yn cario'r bagiau coch am eu bod yn gallu cael eu dal gan y gwynt.

**Tywydd -** gall y tywydd gael fwy o effaith ar unigolion sydd yn gweithio mewn amgylchedd arfordirol, a dylid addasu hyd y gweithgaredd glanhau yn unol â hynny. Gall gwynt, glaw ac ewyn wneud i bobl deimlo'n oerach yn gynt, ac os yw'n heulog, gall oerfel y gwynt guddio effaith yr haul gan arwain at losg haul.

**Ardal waith (creigiau llithrig, cerrig mân) -** yn unol â'u natur, gall ardaloedd arfordirol fod yn fwy peryglus o dan droed, a dylid gwisgo esgidiau addas. Mae creigiau sydd wedi cael cyswllt â'r llanw yn debygol o fod yn wlyb ac yn llithrig, a gall tywod a cherrig mân fod yn anodd cerdded arnynt.



**Ffaglau a chynwysyddion anadnabyddus –** os canfyddir ffaglau heb eu defnyddio wedi eu golchi i fyny ar y lan, dylid eu gadael yno, gofyn i bobl symud i ffwrdd, a hysbysu Gwylwyr y Glannau ar unwaith. Os oes cynwysyddion anadnabyddus yn cael eu golchi i fyny ar y lan, dylid hysbysu'r awdurdod lleol, fydd â threfniadau priodol wedi eu sefydlu. Ni ddylid symud eitemau mawr fel hyn heb drefnu gyda'r awdurdod lleol ymlaen llaw.

**Traethlin -** mae'r draethlin yn gynefin hanfodol bwysig i iechyd y traeth, felly dim ond gwrthrychau dieithr/sbwriel y dylid eu symud o'r traeth.